# COFNODION CYNGOR CYMUNED RHOSYBOL
## Cyfarfod Rhithwith Nos Lun 8fed Mehefin 2020

1. Oherwydd sefyllfa Coronavirus, penderfyniad wedi cael ei wneud i gynnal y cyfarfod drwy Galwad Fideo.

2. Presennol
*Huw Edwards (Cadeirydd), Debra Griffiths, Rhian Hayes, Wendy Morris Griffiths, Gwilym Morris, Aled Morris Jones*

3. Ymddiheuriadau
*Carol Jones, Ceri Jones, Gwynfor Owen*

4. Datgan Diddordeb
*Huw Edwards – datgan diddordeb eitem cynllunio HHP/2020/93*

5. Darllen ac cymeradwyo cofnodion cyfarfod 3 Chwefror 2020
*GM yn cynnig, WM yn eilio fod cofnodion yn gywir*

6. Materion yn codi

i. Awdit Mewnol - Alun Foulkes cwblhau awdit mewnol 2019/20 ME am geisio nol y gwaith papur cyn gynted a phosib a ei basio ymlaen i'r aelodau, cyfarfod cyngor cymuned Rhosybol ei angen ar 22 Mehefin 2020 i awdurdodi'r cyfrifon cyn 30 Mehefin 2020

*ME yn egluro ei bod wedi trefnu gyda'r archiwliwr i nol y Gwaith papur cyn gynted a phosib, dim pryder gan yr archiliwr ond bydd angen Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol cael ei cymerdwyo gan y cyngor cyn gynted a syn phosib er mwyn cyflawni gofynion archwiliad mewnol ac allanol.*

ii. Awdit Allanol – 2018/19 heb ei orffen, ME wedi trafod gyda Alun Foulkes a mae o am helpu cablhau y gofynion

.

iii. Torri Cae Chwarae Rhosybol
Gwybodaeth i ddilyn ynghlyn a'r ymatebion
2 pris wedi ei dderbyn, nifer o contractwyr ddim yn medru rhoi'r amser i wneud y gwaith.

| | Pris 1 | Pris 2 |
|---|---|---|
| Toriad cyntaf y flwyddyn | £150 | £150 |
| Toriad cae chwarae (bob pythefnos) | £75 | £60 |
| Torri Llwybr Betsi (fel bo'r angen) | £40 | £15 |

*GM yn cynnig mynd am bris 2, DG yn eilio. Cynnig contract 2020 a adolygu cyn 2021.*

iv. Cwyn am Faw Ci yn Rhosybol ar hyd lon gefn, a lon stad Alaw View. Gofyn os oes posib cael 'Dispenser' bagiau baw ci.

- 'Dispensers' ar gael trwy Cyfoeth Naturiol Cymru (cyllido 75%), CSYM (12.5%) a Cyngor cymuned (12.5%) sef £12.50
- Os oes gan CSYM fagiau, mae rhai yn dod gyda'r dispenser, ond cyngor cymuned i ail lenwi a cymyd y gost o hyny ymlaen.
- Rhaid i'r 'dispenser' fod ar bolyn sydd yn agos at fin sbwriel yr awdurdod (gweler map o sefyllfaoedd biniau Rhosybol)
- Costau bagiau gan cyflenwyr
  Wybone £37.75 am 800
  JRB £22.90 am 800 (Economy pack)
- Tim AONB a cyngor cymuned i gytuno ar safle unrhyw dispenser.

*Trafodwyd yr opsiynau, gyda penderfyniad o gael un 'dispenser' ar y lon gefn wrth ochr bin gwastraff ci ac un ar y lon fawr wrth fin gwastraff lon tai newydd. ME am holi tim AONB CSYM os fysant yn cytuno gyda'r lleoliadau, a trefnu talu £25 am y ddau.*
*HE yn codi pryder os caiff y bagiau eu cymyd yn ormodol gan rhai unigolion, ond cyngor cymuned am gadw golwg ar faint sydd yn cael ei cymeryd.*

v. Ymholiad i gael prydles ar dir tu cefn i'r safle'r hen marcwis i gael sefydlu tim peldroed. Gweler ebost a derbynwyd gan AMJ.
ME wedi cael copi o'r brydles cae chware gan CSYM (ebost 07/06/20)

*AMJ – cyfeirio'r applicant tuag at CSYM, gan fod y tir tu allan i'r tir prydles rhwng CSYM a cyngor cymuned Rhosybol.*
*CC Rhosybol yn cynnig cefnogaeth tuag at y fenter. ME i ysgrifennu llythyr ymateb*

vi. Er gwybodaeth - Anfonebau heb ei derbyn
ME heb dderbyn anfonebau am y canlynol am 2019/20
Cost Neuadd i'r cyfarfodydd, ME am holi'r pwyllgor neuadd
Cost Prydles Cae Chwarae, ME am holi CSYM

*Dim sylwadau*

vii. Cyhoeddi Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau 2018/2019 – diffyg cydymffurfio
Chafodd yr adroddiad ddim ei gwblhau o fewn yr amser priodol.
Cyngor Cymuned Rhosybol ddim wedi talu dim i'w haelodau yn ystod 18/19. ME wedi llenwi'r ffurflen a wedi ei yrru ymlaen i'r Panel Annibynnol Cymru ar ebost. Nodi fod rhaid cofio i wneud yr adroddiad cyn 30 Medi 2020 am wybodaeth 2019/20

*Dim sylwadau*

viii. Cae chwarae Rhosybol, diweddiad ers Chwefror.
Goriad y pod wedi ei golli gan aelod staff Ysgol Rhosybol,
Wedi cynnig ail gosod clo newydd.

*Derbyn cynnig i gael clo newydd.*
*Neb yn siwr os ydy bin gwastraff y cae chwarae yn cael ei wagio o gwbl, ME i holi.*

ix. Er Gwybodaeth
Dim gofynion i'r cyngor gynnal cyfarfod blynyddol tan diwedd y flwyddyn oherwydd COVID 19.
*GM yn cynnig fod y cadeirydd a Is-gadeirydd yn parhau yn y swyddi hyd at Mai 2020 neu y cyfarfod blynyddol diwedd y flwyddyn, AMJ yn eilio. HE yn derbyn, ME i gadarnhau gyda DJ os mae'n fodlon gyda'r trefn*

**7. MATERION CYNLLUNIO**

**CEISIADAU CYNLLUNIO**

- SCO/2020/2
  Fferm Wynt Llyn Alaw Wind Farm, Llanbabo
  Barn sgopio ar gyfer ymestyn cyfnod y caniatad dros dro er mwyn ymestyn am gyfnod o 10 mlynedd pellach gyfnod gweithredol y datblygiad

  *Dim sylwadau*

- SCO/2020/3
  Fferm Wynt Trysglwyn Wind Farm, Rhosybol
  Barn sgopio ar gyfer ymestyn cyfnod y caniatad dros dro er mwyn ymestyn am gyfnod o 10 mlynedd pellach gyfnod gweithredol y datblygiad

  *WMG yn bryderus fod melinoedd gwynt dim mwy na'r maint presennol yn cael ei lleoli ar y safle*

- FPL/2019/322
  Christ Church, Rhosybol
  Mae manylion / gwybodaeth pellach wedi ei dderbyn yng nghyswllt y bwriad isod:
  Cais llawn ar gyfer newid defnydd eglwys i annedd gyda adeiladu mynedfa cerbydau newydd

  *AMJ, WMG, GM yn anghytuno gyda's cais yn gryf, am nifer o rhesylamu, mae'r cais yn anfoesol iawn gan feddwl fod y fynwent yn mynd o gwmpas yr eglwys yn agos iawn, mae llawer o deuluoedd lleol gyda teulu wedi ei claddu yn y fynwent.*
  *Hefyd mae'n amhosib creu safle parcio o flaen yr eglwys gan fod y tir cysegredig yn mynd o gwmpas yr eglwys i gyd.*

- HHP/2020/93
  Ty Mawr, Penygraigwen
  Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu

  *Cefnogi'r cais*

**PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO**

- HHP/2020/52
  Penrallt Cottage, Llandyfrydog
  Caniatad gyda amodau

- FPL/2019/346
  Rhos Engan, Rhosgoch
  Cais llawn ar gyfer codi tô ar ben iard silwair bresennol
  Caniatad gyda amodau

- FPL/2020/9
  Hazel Bank, Rhosybol
  Cais llawn ar gyfer codi annedd newydd ar dir

8. **ADRODDIAD ARIANNOL A BILIAU**

a) Cyflogaeth Clerc ME (Cyflog Chwefror 20 – Mai 20) £1230.40
b) Yswiriant, Zurich Municipal am 20/21 £1456.59
c) Cost Cais cynllunio, bwrdd gwybodaeth Calon Mon, llandyfrydog £190.00
d) Anfoneb Cyfrifydd I.G. Jones, gwasanaeth PAYE £162.00
e) Aelodaeth Un Llais Cymru 2020/21 £166
f) CSYM, cost 2 dispenser baw ci £25.00

9. **Unrhyw Fater Arall**

**Trysglwyn**

Cais gan Tim Nyrsys lleol i fedru ariannu offer diogelwch yn ystod COVID 19 – AMJ yn cynnig £1000 o arian Trysglwyn tuag at yr achos. (ebost 6 Ebrill 2020)

*AMJ yn dangos diddordeb*
*GM yn cynnig, RhH yn eilio i rhoi £1000 tuag at yr achos*

---

***Cyngor***

1. Llythyr wedi ei dderbyn 8fed Mehefin 2020 gan Arfon Hughes – Hunanadeiladu Cymru

   Gofyn am unrhyw ffordd o adnabod bobl lleol gyda didordeb o hunain adeiladu ar safle

marcwis.

*Cytuno rhoi poster ar y wefan a hysbysfwrdd pan fydd un wedi ei dderbyn*

2. RhH yn codi’r mater o gais am ddrych gyferbyn Rhosybol Bach.

   *Angen drych dwy ffordd oherwydd methu gweld a hitha yn dymor prysur gyda peiriannau amaeth yn defnyddio’r lon. AMJ am gysylltu gyda adran Priffyrdd am gais*

Cadeirydd……………………………………………………Dyddiad…………………….